

Stori Fer: Gwenu

Roeddwn i wedi dewis 'chwerthin' fel testun gan obeithio derbyn storiâu ffraeth a doniol gan fod ysgrifennu o'r fath yn brin o hyd yn y Gymraeg. Ond, hyd yn oedd gyda thestun mor awgrymog, salwch a marw a diflastod bywyd a gafwyd yn bennaf yn y storiâu hyn. Efallai nad ydym ni'r Cymry yn or-hoff o chwerthin wedi'r cyfan!

Gwenu: Disgrifiad diffuant o hapusrwydd un teulu bach digon tlawd wrth iddyn nhw chwarae â'i gilydd. Ond, dyw hi'n fawr o stori.

Fflur: Y mae yna ymgais dda yn fan hyn i greu awyrgylch, ac mae'r stori ei hun symud yn ei blaen yn gyflym. Hanes hen wraig sydd wedi dod i fyw mewn bwtyhn ar gyrion pentref ers rhyw chwe wythnos sydd yma, a neb yn gwybod ei hanes. Gwraig ddigon hagr ei golwg yw hi ac yn gwisgo'r un dillad budr drwy'r amser. Y mae plant y pentref yn penderfyn mynd at y tŷ i ddarganfod ychydig o'i hanes. Pan ddaw hi i'r drws mae hi'n gwisgo ffrog briodas a cholur, a chaiff y plant fynd i mewn a darganfod tŷ tywyll oer. Y mae hi'n dweud fod ei chariad yn dychwelyd o'r rhyfel y noson honno a bod y ddau yn bwriadu priodi. Wrth gwrs, wedi colli ei phwyll mae hi ac wedi dianc o gartref.

Mae hon yn ymdrech dda gan rywun cymharol ifanc, o bosib, ac mae yna rai materion iaith a gramadeg i'w twtio. Dwi ddim yn siwr ai 'Chwerthin' fyddai teitl y stori petai hi ddim yn y gystadleuaeth hon!

Walter Ewart: Hanes Jackson a geir yn y stori hon. Bachgen ifanc sy'n gaeth i gyffuriau ydi o, a bu'n byw gyda'i dad-cu ar stad cyngor. Y mae'r sori yn agor yn angladd y tad-cu a Jackson yn chwerthin yn afreolus yno. Y mae'r stori yn tin-droi braidd ar ól hynny, ac yn anffodus mae yma nifer o wallau iaith, a byddai'n dda petai'r awdur yn edrych yn fanylach ar gystrawennau'r iaith. Darllen llawer yw'r unig ateb, mewn gwirionedd

Iolo: Dyma'r storiwr gyda'r adnoddau ieithyddol gorau i adrodd stori. Hanes merch ifanc o gefn gwlad Ceredigion sydd yma a symudodd i'r ddinas i fyw gan ddod o dan ddylanwad cyffuriau. Y mae'r naill peth â'r llall yn ei gweld hi'n troi at buteindra, ac mae'r stori dywyll a thrist hon yn cloi gyda'i llofruddiaeth. Mi faswn i'n cynnig un gair o gyngor, sef ceisio canolbwyntio mwy ar ddweud y stori gan adael i bopeth arall ddeillio o hynny. Ond Iolo biau'r wobr.

Dafydd John Pritchard